TV Access Project

S4C / TAC

# Pasbort Mynediad

## Gwybodaeth am y Pasbort Mynediad hwn

Yn [**ENW'R CYNHYRCHIAD/SEFYDLIAD**], rydym am gefnogi pawb i gael y profiad gorau posibl wrth weithio gyda ni.

Mae'r ddogfen hon yn **Basbort Mynediad**. Drwy rannu manylion eich anghenion mynediad gyda ni, rydych yn ein helpu i'ch cefnogi yn y ffordd orau bosibl.

Mae defnyddio Pasbort Mynediad yn gwbl ddewisol, a gallwch gyfathrebu eich anghenion mynediad gyda ni mewn unrhyw ffordd sy'n addas i chi.

## Cwblhau'r Pasbort Mynediad hwn

Mae pob adran yn y Pasbort Mynediad yn **ddewisol**. **Chi sydd yn penderfynu faint o wybodaeth yr hoffech ei rhannu** wrth ateb pob cwestiwn.

Mae'r Pasbort Mynediad hwn yn **gyfrinachol**. Chi sy'n berchen arno, a gallwch ei rannu gyda'ch Rheolwr Llinell neu aelodau eraill o'r tîm er mwyn eich cefnogi. Ni fydd yn cael ei rannu ag unrhyw un arall heb eich caniatâd.

Nid oes unrhyw ofyniad i rannu manylion am eich hanes meddygol oni bai eich bod yn dymuno gwneud hynny.

Gellir **adolygu neu ddiwygio'r ddogfen ar unrhyw adeg.**

Mae'r templed Pasbort Mynediad hwn wedi'i ddatblygu gan aelodau y TV Access Project.

## Amdanoch Chi

**Eich enw:**

**Eich rhagenwau:**

**Eich rôl:**

**Manylion cyswllt:**

---

## Sut gallwn eich cefnogi?

Mae hwn yn gyfle i chi rannu **unrhyw wybodaeth rydych yn ei ddymuno** . Efallai hoffech gynnwys:

- Sut rydych yn disgrifio unrhyw **anghenion mynediad, anableddau** neu **gyflyrau iechyd** sydd gennych.
- Unrhyw **rwystrau** rydych yn eu profi yn eich gwaith, gan gynnwys teithio a llety.
- Unrhyw **feddyginiaeth** rydych yn ei gymryd, a sut gallai effeithio arnoch.
- Os yw eich anghenion mynediad yn debygol o **newid o ddydd i ddydd.**

- Unrhyw wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol **mewn argyfwng.**

- Pa fath o **gyfathrebu** sy'n eich cefnogi orau?

**Atebwch yma...**

**Pa addasiadau sydd eu hangen arnoch?**

Rhowch wybod i ni am unrhyw addasiadau **sydd eisoes yn bodoli neu yr hoffech eu rhoi mewn lle.** Efallai yr hoffech gynnwys pethau fel:

- Dehonglwyr neu weithwyr cymorth
- Addasiadau i drefniadau teithio neu lety
- Defnyddio man tawel
- Oriau gwaith wedi'u haddasu
- Technoleg gynorthwyol
- Pa fath o gyfathrebu sy'n eich cefnogi orau

Efallai yr hoffech gynnwys addasiadau sydd eu hangen arnoch mewn amgylchiadau penodol yn unig, gan gynnwys **pan fydd eich anghenion mynediad yn newid.**

**Os nad ydych yn siŵr pa addasiadau a allai fod o gymorth i chi**, ond yr hoffech gael cefnogaeth i drafod a chanfod beth allai weithio orau, nodwch hynny yn eich ateb.

Defnyddiwch y gofod hwn hefyd i rannu unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei wybod, er enghraifft unrhyw

addasiadau sydd eisoes mewn lle ond nad ydynt wedi'u crybwyll uchod.

**Atebwch yma**…

**A oes unrhyw beth arall y byddai'n ddefnyddiol i ni ei wybod?**

Defnyddiwch y gofod hwn i rannu **unrhyw wybodaeth ychwanegol** yr hoffech i ni wybod.

Os hoffech i ni drafod eich mynediad gyda rhywun arall fel gweithiwr cymorth neu eiriolwr, rhowch eu manylion yma.

**Atebwch yma…**

## Camau Nesaf

Ar ôl cwblhau'r Pasbort Mynediad uchod, dylech

• Anfon cadarnhad ysgrifenedig o'ch addasiadau at eich rheolwr llinell.

• Os hoffech wneud unrhyw newidiadau i'r wybodaeth uchod, gellir adolygu a diweddaru'r Pasbort Mynediad ar unrhyw adeg.

**Dylid cwblhau'r dudalen yma gyda [RHEOLWR LLINELL / CYSWLLT MYNEDIAD]**

**Pa addasiadau sydd wedi'u cytuno?**

Nodwch unrhyw addasiadau sydd wedi'u cytuno ar gyfer eich rôl.

**Atebwch yma…**

**Dyddiad:**

**Dyddiad adolygu:**

Noder: Dylid adolygu Pasbortau Mynediad o fewn chwe mis fan bellaf, a gellir diwygio a gwneud addasiadau ar unrhyw adeg fel bo'r angen.

## Cwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â **[RHEOLWR LLINELL / CYSWLLT MYNEDIAD]** ar **[EBOST].**